


FFRAMWAITH ASESU HYBLYG

Model cenedlaethol ar gyfer llunio asesiadau cynhwysol sy'n barod ar gyfer y dyfodol

Dr Miri Firth



AdvanceHE & QAA

FFRAMWAITH ASESU HYBLYG

Model cenedlaethol ar gyfer llunio asesiadau cynhwysol sy'n barod ar gyfer y dyfodol

Dr Miri Firth

GYDA CHEFNOGAETH...



Cyhoeddwyd gan:
Prifysgol Manceinion
Oxford Road, Manceinion M13 9PL. www.manchester.ac.uk

Cedwir gan:
Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA)
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB. www.qaa.ac.uk

Teitl y ddogfen: Fframwaith Asesu Hyblyg: model cenedlaethol ar gyfer llunio asesiadau cynhwysol sy'n barod ar gyfer y dyfodol

Awdur y ddogfen: Dr Miri Firth, Prifysgol Manceinion, mewn cydweithrediad â chyfranwyr yn y sector sefydliadau addysg uwch ledled y DU.

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2025

Hawlfraint: © Dr Miri Firth a Phrifysgol Manceinion, 2025.

Cedwir bob hawl. Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i storio mewn system adferiad, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ffurf neu drwy unrhyw ddull arall (electronig, mecanyddol, llungopïo, recordio ac ati) heb ganiatâd ysgrifenedig gan ddeiliaid yr hawlfraint o flaen llaw, heblaw i'w ddefnyddio mewn ffordd resymol at ddibenion addysgol ac anfasnachol, ar yr amod bod y ffynhonnell yn cael ei chydabod.

Cyhoeddwyd y gwaith hwn gan Brifysgol Manceinion, ac mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) yn ei gadw yn rhan o'i chfres o Brosiectau Gwella Cydweithredol. Mae'r gwaith hwn yn parhau i fod yn eiddo deallusol i'r awdur a Phrifysgol Manceinion ar y cyd.
DOI: 10.13140/RG.2.2.16944.83209

Testun cyfeiriad:

Firth, M. (2025). Fframwaith Asesu Hyblyg: model cenedlaethol ar gyfer llunio asesiadau cynhwysol sy'n barod ar gyfer y dyfodol. Prifysgol Manceinion. Cedwir gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch, gyda chefnogaeth Advance HE, 41 tudalen.

Cydnabyddiaethau:

Datblygwyd y gwaith hwn ar sail Prosiect Gwella Cydweithredol 'Dewis mewn Asesu' (2023) QAA, ar y cyd â mwy na 40 o gyfranwyr academiaidd a phroffesiynol o bob rhan o sector addysg uwch y DU sydd wedi rhoi mewnbwn iddo a'i adolygu fel cymheiriaid. Cefnogwyd y gwaith gan Advance HE yn rhan o'i raglen genedlaethol i wella arferion asesu ac adborth drwy'r sector addysg uwch cyfan.

Nodyn gan y cyhoeddwr:

Mae Prifysgol Manceinion yn cefnogi gwaith arloesi ac ysgolheictod sy'n gwella addysg gynhwysol sy'n barod ar gyfer y dyfodol. Mae'r fframwaith hwn yn adeiladu ar y prosiect 'Dewis mewn Asesu' cenedlaethol i hybu arferion asesu hyblyg a chyfartal er budd y dysgwyr i gyd.



CYNNWYS

Beth yw asesu hyblyg?.....	4
I bwy mae'r fframwaith hwn?.....	5
Pam mae asesu hyblyg mor bwysig?.....	6
Sut i ddefnyddio'r fframwaith hwn.....	8
Dull 1: Cynllun ymarferol.....	9
Dull 2: Gweithredol.....	14
Dull 3: Aliniad strategol.....	20
Templedi.....	25
Sut allwch chi ddefnyddio'r fframwaith hwn?.....	34
Aliniad â Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU.....	36
Trosolwg gweledol o'r Fframwaith Asesu Hyblyg.....	38
Llyfryddiaeth.....	39
Y cyfranwyr.....	40


BETH YW ASESU HYBLYG?

Mae'r term 'asesu hyblyg' yn cyfeirio at ddulliau sy'n galluogi i'r myfyrwyr ddangos yr hyn y maent wedi ei ddysgu drwy amrywiaeth o ddulliau, amseriadau a fformatau sydd oll wedi eu cyfateb â'r deilliannau dysgu a fwriedir. Rhoddir dewis ystyrlon i'r myfyrwyr o ran sut a phryd maen nhw'n cael eu hasesu, ac weithiau beth maen nhw'n cael eu hasesu arno, er mwyn cydnabod yr amgylchiadau arbennig sy'n effeithio ar y myfyriwr unigol.

Gallai hyblygrwydd gynnwys y canlynol ymysg pethau eraill:

- **Y dull:** gwaith (yn unigol neu ar y cyd fel grŵp), tasgau sy'n ymwneud â phroblemau, neu elfennau o brosiectau y cytunir arnynt.
- **Fformat y cynnyrch:** e.e. adroddiad ysgrifenedig, cyflwyniad wyneb yn wyneb, cynhyrchion nad ydynt yn ysgrifenedig, cyflwyniad fideo, arholiad, podlediad neu bortffolio.
- **Amseru neu ddilyniannu:** pryd mae asesiadau'n cael eu cwblhau yn rhan o raglen, neu ddewis o ddyddiadau cyflwyno.
- **Tasgau neu gwestiynau y cytunir arnynt:** gallai'r myfyrwyr gyd-gynllunio neu drafod ffocws y dasg.
- **Meini prawf neu bwysoli:** cyfleoedd i roi pwyslais ar elfennau penodol.

Mae asesu hyblyg yn ymwneud â sicrhau trylwyredd academiaidd, gan adnabod cryfderau a phrofiadau byw'r myfyrwyr unigol a'u hamcanion ar gyfer y dyfodol. Trwy sicrhau bod dulliau asesu'n gynhwysol ac wedi eu seilio ar waith go iawn, mae'r myfyrwyr yn cael eu paratoi ar gyfer cyd-destunau proffesiynol ac academiaidd cymhleth y byd go iawn.




I BWY MAE'R FFRAMWAITH HWN?

Dyma ddefnyddwyr arfaethedig y fframwaith hwn:

- **Staff academiaidd** sy'n cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a darparu'r cwricwlwm
- **Staff gwasanaethau proffesiynol** a thechnolegwyr dysgu sy'n cefnogi prosesau asesu
- **Arweinwyr uwch** ac arweinwyr sicrhau ansawdd sy'n siapio polisïau a strategaethau asesu
- **Swyddogion Undeb y Myfyrwyr** a chynrychiolwyr y myfyrwyr sy'n cynllunio profiadau dysgu ar y cyd
- **Myfyrwyr** sy'n astudio ar raglenni ac sy'n gallu cyfeirio ato i ddeall cwmpas a diben y dull asesu hyblyg
- **Cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrff PSRh)** sydd â diddordeb mewn dulliau asesu sy'n barod ar gyfer y dyfodol
- **Cyrff rheoleiddio a gwella ansawdd addysg uwch** sy'n gosod safonau ansawdd i bob rhaglen astudio


Mae'r fframwaith yn berthnasol i sefydliadau addysg uwch a cholegau addysg bellach sy'n darparu rhaglenni addysg uwch, ac mae modd i'w addasu ar gyfer gwahanol feysydd astudio, lefelau astudio a dulliau darparu.



PAM MAE ASESU HYBLYG MOR BWYSIG?

Yn yr astudiaeth genedlaethol am gyfleoedd dewis mewn asesu (Firth et al., 2023, QAA), nodwyd nifer o ffactorau sy'n gyrru newid:

- Gwell deilliannau dysgu'r myfyrwyr: Mewn rhai cyd-destunau, roedd y myfyrwyr hynny a gafodd gyfle i ddewis fformat eu hasesiad wedi cyflawni gwell canlyniadau academaidd.
- Lefelau uwch o foddhad ymysg y myfyrwyr: Ar draws gwahanol raglenni, soniodd myfyrwyr am lefelau uwch o ymgysylltiad a chymhelliant pan roddir dewis ystyrllon iddynt.
- Cau'r bylchau mewn cyrhaeddiad: Mae cyfleoedd dewis wedi galluogi i fyfyrwyr o gefndiroedd amrywiol ddangos eu cryfderau'n well, gan gefnogi ymdrechion i ymdrin â chyrhaeddiad gwahaniaethol.
- Hunanreolaeth y myfyrwyr a'u parodrwydd ar gyfer y byd go iawn: Trwy wneud dewisiadau, mae'r myfyrwyr yn datblygu eu gallu i wneud penderfyniadau, yn meithrin eu hyder ac yn hybu eu hymwybyddiaeth metawybyddol - sef rhai o'r priodoleddau allweddol sydd gan raddedigion.
- Effeithiau cadarnhaol ar les y dysgwyr: Mae hyblygrwydd a chanllawiau clir wedi lleihau gorbryder a straen i nifer fawr o'r dysgwyr.
- Cynllunio dulliau asesu cynhwysol ar sail gwaith go iawn: Mae dulliau asesu hyblyg yn adlewyrchu arferion proffesiynol, gan bwysleisio sgiliau creadigol, sgiliau meddwl beirniadol a sgiliau cyfathrebu.
- Dulliau asesu sy'n cymryd i ystyriaeth effeithiau DA: Trwy gynnig amrywiaeth o dasgau wedi'u seilio ar waith go iawn, mae asesiadau'n llai atebol i agored i awtomeiddio a llên-ladrad, gan gefnogi gwreiddioldeb a sgiliau'r ysgrifennwr ei hun.
- Cefnogi twf proffesiynol y staff: Mae cyflwyno fformatau asesu newydd yn gallu gwneud marcio'n fwy diddorol, gostwng ailadrodd ac ysbrydoli arloesi mewn addysgeg.






Er gwaethaf y manteision clir, mae dulliau asesu hyblyg yn dal i gael eu gweithredu'n anghyfartal ar draws y sector. Dyma'r rhesymau am hynny:

- **Ymwybyddiaeth a hyder:** Mae llawer o staff yn ansicr sut mae asesu hyblyg yn edrych mewn gwirionedd, neu sut i'w weithredu ar lefel rhaglen.
- **Tegwch a chysondeb:** Mae pryderon yn parhau ynglŷn â sicrhau cydraddoldeb ar draws amrywiol opsiynau i wneud asesiadau, yn enwedig mewn perthynas â safoni a marcio.
- **Llwyth gwaith a systemau:** Cymhlethdod ychwanegol i staff academiaidd, mae gwasanaethau proffesiynol a systemau digidol yn gallu gweithredu fel rhwystrau os na chânt eu trin ar lefel sefydliadol.
- **Gwahaniaethau rhwng meysydd astudio:** Mae hyblygrwydd yn fwy heriol i'w weithredu ar nifer o raglenni STEM a rhaglenni sydd ag achrediad proffesiynol, yn enwedig mewn meysydd o gynnwys sylfaenol sydd â gofynion hynod safonol.
- **Ffactorau diwylliannol:** Mae'r canfyddiad bod yn rhaid i asesiad gael ei 'wneud fel y mae wedi cael ei wneud erioed' yn gallu cyfyngu ar arloesi, er bod nifer o'r staff yn agored i ddulliau newydd.


Mae'r fframwaith hwn yn mynd i'r afael â'r problemau hyn yn uniongyrchol drwy roi diffiniadau, dulliau ac offer i gefnogi gweithrediad hyderus, cyfartal a graddiadwy.

Dyma'r 3 dull y mae'r fframwaith hwn yn eu defnyddio i gefnogi'r gwaith o ymwreiddio egwyddorion asesu hyblyg:

1. Ymarferol
2. Gweithredol
3. Strategol




SUT I DDEFNYDDIO'R FFRAMWAITH HWN



1. Dull ymarferol - 'Dechreuwch gyda'r hyn y gallwch ei wneud yn barod'

Lluniwyd yr adran hon i aelodau staff sydd eisiau offer ac esiamplau ymarferol i wneud dulliau asesu'n fwy hyblyg ar unwaith. Gellir ei defnyddio i:

- Archwilio'r dulliau asesu cyfredol mewn perthynas â hyblygrwydd, cynhwysiant a chyfleoedd dewis
- Archwilio fformatau amgen sydd wedi eu cyfateb â deilliannau dysgu (e.e. blogiau, podlediadau, portffolios)
- Ysbrydoli newidiadau graddfa fach i fodiwlau neu aseiniadau
- Rhannu â thimau mewn cyfarfodydd lle mae cwricwla'n cael eu cynllunio neu mewn sesiynau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) academiaidd




Gallwch ddefnyddio'r dull hwn os ydych yn ddarlithydd, yn diwtor neu'n aelod o staff cymorth sy'n chwilio am syniadau y gallwch eu treialu ar unwaith.

2. Dull gweithredol - 'Sgaffaldio newid yn eich sefydliad chi'

Nod yr adran hon yw cefnogi'r bobl hynny sy'n gobeithio ymwreiddio egwyddorion asesu hyblyg mewn prosesau sicrhau ansawdd neu adolygu cwricwla, neu yn y gwaith darparu ar draws y timau i gyd. Mae'n cynnwys y canlynol:

- Canllawiau am waith cynllunio ar lefel y rhaglenni a mapio cyfleoedd dewis ar draws y cwricwlwm cyfan
- Ystyriaethau wrth safoni, marcio, a chreu strwythurau cefnogi
- Promptiau trafod ar gyfer adrannau neu dimau ar draws gwahanol swyddogaethau
- Syniadau i annog myfyrwyr a staff i greu dulliau newydd ar y cyd




Gallwch ddefnyddio'r dull hwn os ydych yn arwain y gwaith o ddiwygio cwricwla, yn rheoli'r gwaith o ddarparu rhaglenni neu'n cydlynu prosesau asesu ar draws nifer o unedau.

3. Dull strategol - 'Gyrru newid diwylliannol cynaliadwy'

Nod yr adran hon yw cefnogi arweinwyr uwch a phobl sy'n dylanwadu ar bolisiâu i ymwreiddio egwyddorion asesu hyblyg mewn strategaethau, ac mae'n ymwneud â'r canlynol:


- Aliniad â blaenoriaethau sefydliadol (e.e. profiad y myfyrwyr, parodrwydd ar gyfer DA, egwyddorion cynllunio cynhwysol)
- Cysylltiadau â pholisiâu cenedlaethol (e.e. QAA, Advance HE, y Swyddfa Myfyrwyr) a safonau proffesiynol
- Dulliau trosoli strategol ar gyfer gweithredu (e.e. cylchoedd adolygu, modelau dyrannu llwyth gwaith, cydnabyddiaeth i raglenni DPP)
- Negeseua ar gyfer cyfathrebu â'r rhanddeiliaid a'r cyhoedd



Gallwch ddefnyddio'r dull hwn os ydych yn siapio polisiâu sefydliadol, yn arwain rhaglenni newid neu'n eirioli dros ddulliau arloesol i'r sector cyfan.

DULL 1:

Cynllun ymarferol Y 4 egwyddor asesu hyblyg




Wrth wraidd asesu hyblyg mae cynllunio dulliau asesu cynhwysol ac effeithiol. Mae'r 4 elfen yn fan cychwyn wedi'i seilio ar addysgeg i staff academiaidd a thimau cyrsiau:

Yr egwyddor	Disgrifiad	Esiamlau ymarferol
Dewis	Cynnig cyfleoedd dewis ystyrion i'r myfyrwyr lle byddai hynny wedi ei gyfiawnhau'n addysgol*.	Y fformat (e.e. fideo, adroddiad), yr amseriad, yr unigolyn/y tîm
Eglurder	Rhoi meini prawf, disgwyliadau a rhesymau dros bob opsiwn sy'n glir, yn eglur ac yn hygyrch.	Sicrhau eglurder cyfarwyddiadau, canllawiau dewis, cynlluniau marcio
Cyd-gynllunio	Cynnwys y myfyrwyr yn y gwaith o siapio arferion, pynciau neu fformatau ar gyfer asesu.	Cytuno ar gwestiynau, gweithdai cynllunio, arolygon
Cysondeb	Sicrhau bod yr holl opsiynau'n cyfateb â'r deilliannau dysgu a fwriedir ac yn gyfartal o ran pa mor drwyadl ydynt.	Mapio deilliannau dysgu, safoni'n fewnol, trefnu adborth.

* Dewis wedi'i gyfiawnhau'n addysgol yw un lle mae'r hyblygrwydd a gynigir i'r myfyrwyr yn cefnogi'n uniongyrchol y deilliannau dysgu a fwriedir a datblygiad sgiliau pwnc-benodol neu drosglwyddadwy, yn hytrach na dim ond ychwanegu amrywiaeth neu gyfleustra. Mewn geiriau eraill, mae'n ddewis sydd â rhesymeg dysgu clir, wedi ei wreiddio yn amcanion y modiwl neu'r rhaglen, nid dewis y myfyriwr yn unig.

DEWIS



Mae nifer o gyfleoedd i ddewis a nifer o ddulliau o gynnig dewis. Mae'n bwysig cynnig y dewis priodol i'r myfyrwyr er mwyn sicrhau nad yw'r systemau, y gwasanaethau proffesiynol, y cydweithwyr a'r myfyrwyr yn cael eu heffeithio'n negyddol. Er enghraifft, mewn esiampl o waith cwrs mewn Daearyddiaeth, mae cyfle ar gael i'r myfyrwyr ddewis rhwng profiad wyneb yn wyneb a phrofiad rhithiol, gyda fformatau asesu cyfatebol (cyflwyniad byw ar lafar neu gyflwyniad wedi'i recordio o flaen llaw). Roedd hyn yn cefnogi hunanreolaeth a chynhwysiant ond roedd hefyd yn creu llwyth gwaith ychwanegol o ran sicrhau cydraddoldeb rhwng y llwybrau.

Arferion effeithiol


Prifysgol Loughborough - mae cyfleoedd dewis hyblyg ar gael o ran yr asesu mewn modiwl gwaith labordy/ymchwil.

Mewn modiwl 'PSD 632 Advanced Laboratory & Research', rhoddwyd cyfle i'r myfyrwyr ddewis sut y byddant yn cyflwyno eu harbrawf: poster, cyflwyniad PowerPoint, blog fideo, ffeithlun, map rhyngweithiol, neu fformat arall (yn amodol ar gymeradwyaeth). Ymgynghorodd yr hyfforddwr â'r myfyrwyr ynghylch y dewis, gan bwysleisio'r ffaith bod y trefnau marcio'n gyfatebol.


Prifysgol Lerpwl - cynigir mathau hyblyg o gyflwyniadau ar draws modiwlau. Ym Mhrifysgol Lerpwl, rhoddir canllawiau i'r myfyrwyr am ddulliau asesu hyblyg sy'n eu galluogi i ddewis o blith amrywiol fathau o gyflwyniadau, megis llyfryddiaeth wedi'i hanodi, blogiad neu adroddiad, ar yr amod bod pob opsiwn yn cyfateb â'r un deilliannau dysgu.

Cwestiynau i'w hystyried:

1. Pryd ddylai'r myfyrwyr ddewis eu dull asesu/asesiad?
2. Allan nhw newid eu dewis os bydd yr amgylchiadau'n newid (e.e. oherwydd salwch, cyfyngiadau teithio)?
3. Sut mae cyfleoedd i ddewis yn cefnogi hunanreolaeth y myfyrwyr a threfniadau amgen?
4. Pa rwystrau sy'n gwneud asesiad y modiwl hwn yn anhygyrch i rai myfyrwyr?



EGLURDER



Mae 'egllurder' yn golygu sicrhau bod y myfyrwyr yn deall manylion llawn y disgwyliadau, y gofynion a'r goblygiadau ynglŷn â'r llwybrau asesu sydd ar gael. Dylai'r asesiad fod yn agored ynglŷn ag unrhyw hyblygrwydd fel bod y myfyrwyr yn gallu gweld cydraddoldeb yn eglur. Yn yr esiampl o waith maes, rhoddwyd canllawiau am yr opsiynau rhithiol a'r opsiynau wyneb yn wyneb, gan egluro'r amgylcheddau, y cynhyrchion, a'r dulliau marcio. Mae'r amseriad yn hanfodol yma: mae angen cynnig eglurder yn ddigon cynnar i fyfyrwyr wneud penderfyniadau deallus ond yn gytbwys fel nad ydynt wedi eu gorlethu â manylion diangen. Mae rhoi gwybodaeth glir a chyson hefyd yn helpu i leihau gorbryder ac yn meithrin hyder wrth baratoi.

Arferion effeithiol

Prifysgol Manceinion - mae myfyrwyr ar gyrsiau nyrsio wedi cyd-gynllunio eu hasesiadau eu hunain drwy ddewis o blith amrywiol fformatau, megis traethodau, adroddiadau, posteri neu bodlediadau, a phob un wedi'u cyfateb â deilliannau dysgu a meini prawf sydd yn union yr un fath. Mae'r dull cydweithredol hwn wedi arwain at gryfhau hunanreolaeth y myfyrwyr, sicrhau eglurder a chefnogi marcio cyfartal ar draws cynhyrchion amrywiol.


Prifysgol Sheffield Hallam - mae'r brifysgol hon yn darparu canllawiau clir i helpu cydweithwyr i gynllunio opsiynau asesu sy'n deg ac yn eglur. Cynghorir y staff fod yn rhaid i'r holl opsiynau roi cyfle i'r myfyrwyr gyflawni'r un deilliannau dysgu a rhaid iddynt oll ofyn yr un ymdrech, gyda mesurau cydraddoldeb manwl (e.e. mae chwe munud o amser cyflwyno ar lafar yn gyfatebol â 1,000 o eiriau ysgrifenedig). Cefnogir cydweithwyr i weithredu meini prawf marcio cyson ar draws yr holl fformatau a blaenoriaethu tegwch gwirioneddol a chanfyddedig, gan sicrhau nad yw unrhyw fyfyrwr yn cael mantais neu o dan anfantais oherwydd eu dewis ddull asesu.

Cwestiynau i'w hystyried:

1. Ar ba bwynt yn nhaith astudio'r myfyrwyr y dylid darparu eglurder (llawlyfrau, deunyddiau briffio a roddir o flaen llaw, paratodau ar gyfer gwaith maes)?
2. Sut ddylai newidiadau mewn gofynion asesu (e.e. oherwydd amgylchiadau allanol) gael eu cyfathrebu'n glir ac yn gyson?
3. Beth yw'r fformatau mwyaf effeithiol i gyfathrebu'r disgwyliadau mewn perthynas ag asesiadau?
4. Sut mae'r myfyrwyr yn cael eu tywys drwy ddewisiadau hyblyg ac a ydyn nhw'n cael cymorth i wneud penderfyniadau?



CYD-GYNLLUNIO



Mae'r egwyddor cyd-gynllunio'n pwysleisio mor bwysig oedd hi i weithio mewn partneriaeth â'r myfyrwyr, y cydweithwyr a'r gwasanaethau proffesiynol wrth siapio dulliau asesu hyblyg. Yn yr esiampl mewn Daearyddiaeth, gallai cynnwys y myfyrwyr yn y gwaith o siapio neu adolygu'r dewisiadau o ran yr asesu fod wedi sicrhau bod y ddau lwybr yn teimlo yr un mor ystyrlon a pherthnasol â'i gilydd. Mae cyd-gynllunio hefyd yn ymestyn i gynnwys sicrhau bod timau academiaidd yn deall y 'pam' y tu ôl i hyblygrwydd, helpu i sicrhau cydsyniad y staff, a chyfateb arferion asesu ag amcanion ar lefel y rhaglenni. Trwy ymwreiddio'r egwyddor cyd-gynllunio, gall rhaglenni greu amgylcheddau mwy cynhwysol lle mae myfyrwyr yn teimlo wedi eu grymuso ac mae staff yn teimlo wedi eu cefnogi i ddarparu newid. Yr her yw cydbwysio safbwyntiau amrywiol a sicrhau bod y penderfyniadau'n dal i fod yn rhai y gellir eu gweithredu o fewn systemau sefydliadol.

Arferion effeithiol

Prifysgol Glasgow - mae eu canllawiau 'Flexible Submission Guidance' yn cynnwys mewnbwn gan y myfyrwyr a'r staff yn y gwaith o siapio opsiynau cyflwyno, amseriadau, a threfniadau wrth gefn. Yn y canllawiau, gwahoddir y staff yn eglur iawn i ymgynghori â'r myfyrwyr wrth gynllunio fformatau a chyfnodau cyflwyno amgen, gan annog negodi ynghylch yr amseriad a'r fformat wrth sicrhau safonau academiaidd. Mae'r dull cyfranogol hwn yn hyrwyddo cyd-berchnogaeth, yn sicrhau bod arferion hyblyg yn parhau i fod yn berthnasol i anghenion y dysgwyr, ac yn helpu'r staff i ragweld rhwystrau ymarferol i weithredu'r arferion hynny.


Prifysgol Northampton - yn y brifysgol hon, mae eu cipolwg 'Optionality in Assessment' yn annog y staff i gydweithio â'r myfyrwyr yn gynnar yn y broses o gynllunio opsiynau asesu. Mae hon yn esiampl eglur o'r egwyddor cyd-gynllunio ar waith mewn datblygu asesuadau.

Cwestiynau i'w hystyried:

1. Sut all y myfyrwyr gymryd rhan yn y gwaith o gyd-gynllunio neu adolygu llwybrau asesu?
2. Pa ddulliau allai helpu'r staff a'r gwasanaethau proffesiynol i ystyried dulliau asesu hyblyg o'r cychwyn un?
3. Sut all cyd-gynllunio gydbwysu arloesi â gofynion sefydliadol a realiti llwyth gwaith?



CYSONDEB



I sicrhau cysondeb, mae gofyn i bob llwybr asesu fod wedi'i danategu gan yr un safonau academiaidd, dulliau marcio, llwyth gwaith cyfartal, a phrosesau sicrhau ansawdd. Yn yr esiampl mewn Daearyddiaeth, aseswyd y cyflwyniadau byw ar lafar a'r cyflwyniadau wedi'u recordio o flaen llaw gan ddefnyddio yr un meini prawf marcio, ac felly gefnogi tegwch ar draws y moddau. Mae cysondeb hefyd yn cyfeirio at brofiad y myfyrwyr: sicrhau bod y myfyrwyr yn cael cyfleoedd cyfatebol i dderbyn adborth ac i symud ymlaen, beth bynnag fo'u dewis lwybr. Mae hyn yn helpu i hybu ymddiriedaeth yn y system, gan hefyd amddiffyn y staff rhag cyhuddiadau o fod yn annheg.

Arferion effeithiol

Prifysgol Sussex - yn ei sylwadau am gyflwyno cyfleoedd i ddewis, pwysleisiodd myfyrwyr Prifysgol Sussex ei bod hi'n bwysig sicrhau tegwch ar draws y gwahanol fformatau asesu: roedd y myfyrwyr yn teimlo'n hyderus pan welsant bod y meini prawf yn gyson a'r disgwyliadau'n gyfatebol, beth bynnag fo'u dewis fformat. Roedden nhw'n pwysleisio'r ffaith bod cysondeb yn y cyfarwyddiadau marcio, y graddio a'r adborth yn hanfodol i gynnal ymddiriedaeth ac mai ansawdd y gwaith, nid ei fformat, sy'n penderfynu canlyniad yr asesiad.

Cwestiynau i'w hystyried:

1. Sut mae meini prawf marcio a phrosesau safoni'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws y fformatau asesu?
2. Sut all timau'r rhaglenni sicrhau bod y myfyrwyr yn derbyn adborth cyfatebol, beth bynnag fo'u dewis lwybr?
3. Sut all cysondeb gael ei sicrhau ar draws gwahanol garfannau myfyrwyr a gwahanol dimau darparu?




DULL 2:

Gweithredol

Y model 5 cam


o weithredu dulliau asesu hyblyg



Mae'r model 5 cam yn helpu sefydliadau i sgaffaldio dulliau asesu hyblyg o fewn strwythurau sy'n bodoli'n barod, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi gan strategaethau sydd wedi eu seilio'n gadarn ar addysgeg ac sy'n weithredol gynaliadwy ar draws adrannau a rhaglenni. Mae pob cam yn pwysleisio cydweithrediad fel partneriaid rhwng y staff academiaidd, y gwasanaethau proffesiynol a'r myfyrwyr.

Y cam	Ffocws sefydliadol
Cynorthwyo	Darparu datblygiad proffesiynol, pecynnau cymorth ar gyfer cynllunio asesiadau a thempledi digidol. Ffurfweddu systemau cofnodion myfyrwyr a systemau amserlennu a chyflwyno fel eu bod yn cefnogi hyblygrwydd.
Teilwra	Addasu hyblygrwydd y dulliau asesu i ateb anghenion y rhaglenni, gofynion y cyrff PSRB a demograffeg y myfyrwyr, gan sicrhau cywerthedd a graddnodi cyson ar draws y fformatau.
Grymuso	Galluogi i'r myfyrwyr wneud dewisiadau deallus drwy ddarparu canllawiau, offer hunanwerthuso ac esiamplau iddynt, gan ymwreiddio egwyddor cyd-gynllunio ac arferion ffurfiannol.
Diogelu	Diogelu safonau, sicrhau cydraddoldeb, rheoli llwyth gwaith, ac ymwreiddio prosesau i hybu lles y staff, a phrosesau safoni a sicrhau ansawdd.
Gwerthuso	Monitro canlyniadau, casglu adborth gan y staff a'r myfyrwyr, a defnyddio canfyddiadau i fireinio arferion a phenderfynu i ba raddau i'w defnyddio.

CYNORTHWYO



Cymorth yw sail asesu hyblyg. Rhaid i sefydliadau ddarparu datblygiad proffesiynol, templedi digidol a phecynnau cymorth ar gyfer cynllunio asesiadau, er mwyn galluogi i'w staff fagu hyder wrth gynnig hyblygrwydd a sicrhau cysondeb yn y ffordd y maent yn ei gynnig. Dylid cynllunio cymorth o flaen llaw gyda strategaethau cyfathrebu a threfniadau logistaidd eglur, a dylid sicrhau parodrwydd y systemau yn gynnar yn y broses. Mae angen i'r systemau gweinyddol megis cynnal cofnodion myfyrwyr ac amserlennu, a phlatfformau cyflwyno digidol (e.e. Turnitin, Moodle, Blackboard) allu cofnodi dewisiadau ac ymdrin â gwahanol ddyddiadau cwblhau ac amrywiaeth o fformatau cyflwyno.

Rhaid estyn cymorth hefyd i'r gwasanaethau proffesiynol, yn cynnwys swyddfeydd cofrestru, timau dysgu digidol a swyddfeydd sicrhau ansawdd ac asesu, y mae eu harbenigedd yn sicrhau bod yr hyblygrwydd yn weithredol realistig. Yr un mor hanfodol yw'r cymorth o flaen llaw i fyfyrwyr, sy'n eu helpu i adnabod eu cryfderau, eu hanghenion dysgu a'u galluoedd cyn iddyn nhw wneud eu dewisiadau o ran yr asesu.


Rhaid sicrhau eglurder ar lefel y rhaglenni, er enghraifft, drwy fapiau'r dulliau asesu sy'n dangos llwyth gwaith ac amseriadau, sy'n cefnogi'r staff yn eu gwaith cydlynu ac sy'n helpu'r myfyrwyr wrth wneud penderfyniadau.

Cwestiynau i annog trafodaeth:

1. Sut all gwasanaethau proffesiynol, ar y cyd â thimau academiaidd, gynllunio systemau a llifoedd gwaith sy'n gwneud hyblygrwydd yn gynaliadwy?
2. Sut all cynllunio o flaen llaw a chyfathrebu clir helpu i osgoi dryswch neu annhegwch yn nes ymlaen yn y broses asesu?



TEILWRA




Mae'r cam teilwra'n sicrhau bod hyblygrwydd o ran dulliau asesu'n ateb anghenion y rhaglenni, gofynion y cyrff PSRB a demograffeg y myfyrwyr. Er mwyn sicrhau cydraddoldeb a thegwch, rhaid llunio hyblygrwydd yn fwriadol, nid ei addasu i ffitio wedyn. Yn gynnar yn y broses deilwra, mae'n rhaid ymgynghori â chyrff achredu, cyflogwyr a chymunedau proffesiynol er mwyn sicrhau bod fformatau amgen yn parhau'n ddilys ac yn gredadwy.


Ar y cam hwn, mae'n hanfodol sicrhau cywerthedd a graddnodi. Rhaid i nifer y geiriau, hyd y cyflwyniadau neu'r disgwyliadau o ran gweithiau celf fod yn gymaradwy ar draws yr opsiynau, a dylai'r timau safoni adolygu eu cynhyrchion er mwyn sicrhau cysondeb o ran safonau a threfnau marcio. Mae'r broses deilwra hefyd yn ystyried profiadau byw'r dysgwyr, gan gydnabod bod eu hanghenion mynediad a chyflymder a chyd-destun eu hastudiaethau'n amrywio.

Cwestiynau i annog trafodaeth:

1. Sut allwn ni addasu dulliau asesu hyblyg i fodloni safonau cyrff PSRB gan sicrhau cywerthedd a graddnodi cyson ar draws fformatau?
2. Pa brosesau sy'n caniatáu hyblygrwydd heb beryglu cynhwysiant, tegwch neu gredadwyaeth broffesiynol?



GRYMUSO



Mae grymuso'n elfen ganolog o ddulliau asesu hyblyg a dylai fod yn nodwedd o'r broses gyfan, nid ar ôl gwneud y penderfyniadau cynllunio yn unig. Dylid sicrhau bod gan y myfyrwyr y sgiliau a'u bod yn rhan o'r broses, dylid eu cefnogi gydag offer hunanwerthuso, esiamplau a chanllawiau i'w galluogi i wneud dewisiadau deallus, a dylent ymwneud yn weithredol â'r gwaith o gyd-gynllunio neu adolygu fformatau asesu.


Mae grymuso hefyd yn ail-fframio asesiad fel rhywbeth datblygiadol yn hytrach na gwerthusol yn unig. Gall hyblygrwydd helpu'r myfyrwyr i ddatblygu hunaniaeth broffesiynol, gwytnwch, sgiliau cyfathrebu a pharodrwydd ar gyfer byd gwaith. Dylai sefydliadau ymwreiddio amgylcheddau diogel lle nad oes llawer yn y fantol, er enghraifft, drwy gynnig tasgau ffurfiannol, opsiynau i'w treialu neu gyfle i ymarfer aseiniadau, er mwyn rhoi cyfleoedd i'r myfyrwyr arbrofi cyn iddyn nhw wneud penderfyniadau pwysig.

Cwestiynau i annog trafodaeth:

1. Sut all y myfyrwyr gyfranogi'n ystyrlon yn y gwaith o gyd-gynllunio neu brofi opsiynau asesu hyblyg?
2. Sut allwn ni sgaffaldio hyder y myfyrwyr drwy gyfleoedd ffurfiannol a myfyriol cyn iddyn nhw wneud dewisiadau crynodynol?



DIOGELU




Mae'r cam diogelu'n sicrhau bod dulliau hyblyg yn deg ac yn gynaliadwy a bod eu hansawdd yn cael ei sicrhau. Dylid deall diogelu fel rhywbeth sy'n hwyluso'r gwaith o sicrhau tegwch i'r staff a'r myfyrwyr ac o ddiogelu eu lles. Mae'r cam diogelu'n cynnwys defnyddio cyfarwyddiadau wedi'u graddnodi a matricesau cywerthedd i wahaniaethu rhwng deilliannau dysgu hanfodol a chyfleoedd i bersonoli'r dulliau asesu, gan alinio marcwyr â'i gilydd er mwyn sicrhau cydraddoldeb, ac ymwreiddio prosesau graddnodi cymheiriaid a phrosesau safoni ar draws fformatau.


Mae diogelu hefyd yn golygu sicrhau diogelwch y staff, gan gynnwys eu diogelwch seicolegol. I gael hyblygrwydd cynaliadwy mae angen cyfleoedd i fyfrio, ail hyfforddi a chydwyso llwyth gwaith, yn ogystal â chyfleoedd i ddysgu gan gymheiriaid a chydweithio wrth safoni. Dylai prosesau newid gydnabod yn amlwg y llafur emosiynol a'r angen am amgylcheddau cefnogol. Gall sefydliadau ymwreiddio ymarfer myfyriol yn y broses o ailgynllunio dulliau asesu, gan ganiatáu i dimau ailadrodd arferion da a gwella. Anogir treialu opsiynau asesu newydd mewn cyd-destunau lle nad oes llawer yn y fantol cyn mabwysiadu'r dull asesu ar raddfa fawr.

Cwestiynau i annog trafodaeth:

1. Sut allwn ni sicrhau cydraddoldeb, graddnodi a thegwch os bydd y myfyrwyr yn dewis gwahanol lwybrau asesu?
2. Sut allwn ni ddiogelu lles y staff drwy gynllunio llwyth gwaith, mannau myfrio a phrosesau newid sy'n sicrhau diogelwch seicolegol?



GWERTHUSO



Trwy werthuso, rydym yn sicrhau'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom i gynnal dulliau asesu hyblyg a'u datblygu ymhellach. Dylai sefydliadau gasglu adborth gan eu staff, eu myfyrwyr a'u harholwyr, gan ddefnyddio cymysgedd o ddulliau (e.e. arolygon, grwpiau ffocws, dadansoddiadau) i asesu deilliannau megis data am foddhad, perfformiad, tegwch a llwyth gwaith. Dylai'r cam gwerthuso gynnwys mapio effaith, canfod a yw hyblygrwydd yn gwella'r ymgysylltiad â'r dysgu, cynnydd, a phrofiad y staff.

Dylai'r canfyddiadau hysbysu gwelliant parhaus, gan gefnogi penderfyniadau'r arweinwyr ac atgyfnerthu diwylliant o welliant drwy adfyfrio. Mae adroddiadau clir yn cau'r ddolen adborth, gan ddangos i'r rhanddeiliaid sut mae'r dystiolaeth yn siapio polisïau ac arferion.

Cwestiynau i annog trafodaeth:


1. Pa dystiolaeth fyddwn ni ei chasglu i werthuso effaith y dulliau asesu hyblyg ar y myfyrwyr, y staff, a'r systemau sefydliadol?
2. Sut y mae modd rhannu canfyddiadau i hysbysu gwelliant parhaus a chydweithrediad ar draws y sector?



DULL 3:

Aliniad strategol

Y model 3 lens




I sicrhau bod asesu hyblyg yn ffynnu, mae'n rhaid i'r arweinwyr uwch a'r bobl mewn sefydliadau sy'n gwneud y penderfyniadau ystyried asesu hyblyg drwy dri lens rhyngberthynol: Addysgeg, Tegwch, Dichonoldeb. Mae'r model hwn yn berthnasol i werthuso'r arferion asesu cyfredol ac i ganfod angen strategol am newid, gan sicrhau bod asesu hyblyg yn cael ei integreiddio mewn prosesau cynllunio sefydliadol fel nodwedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Gyda'i gilydd, mae'r lensys hyn yn galluogi i'r arweinwyr alinio'r strategaethau a'r diwylliant â'r gweithredoedd, gan sicrhau nad yw hyblygrwydd yn beth newydd sy'n sefyll ar ei ben eu hun, ond yn hytrach yn ddull cynaliadwy a chynhwysol sy'n barod ar gyfer y dyfodol.

Y lens	Ffocws strategol
Addysgeg	A yw asesu hyblyg yn gwella'r dysgu a'r ymgysylltu ac yn hybu hunanreolaeth y myfyrwyr a'u parodrwydd ar gyfer y byd go iawn, gan hefyd gefnogi hygyrchedd?
Tegwch	A yw asesu hyblyg yn lleihau rhwystrau, yn hybu lles y staff a'r myfyrwyr, yn ehangu cyfranogaeth ac yn cau bylchau dyfarnu?
Dichonoldeb	A yw dulliau asesu hyblyg yn raddiadwy, wedi eu cefnogi'n ddigidol a'u halinio â safonau'r cyrff PSRB perthnasol a'r safonau sy'n gyffredin i'r holl sefydliadau, gan sicrhau eu hansawdd?

Y LENS ADDYSGEG



Mae'r lens addysgeg yn canolbwyntio ar y cwestiwn a yw'r dulliau asesu hyblyg yn gwella'r dysgu a'r ymgysylltu, yn hybu hunanreolaeth y myfyrwyr a'u parodrwydd ar gyfer y byd go iawn, ac yn cefnogi hygyrchedd. Mae hyblygrwydd yn cefnogi dysgu wedi'i bersonoli a datblygiad sgiliau trosglwyddadwy megis cyfathrebu, datrys problemau, a phroffesiynoldeb, sef sgiliau a fydd yn gynyddol bwysig mewn byd sy'n cael ei siapio gan ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (DA cynhyrchiol).

Mae'n hanfodol bwysig trafod y materion hyn ar lefel y rhaglenni er mwyn sicrhau nad yw'r myfyrwyr yn cael eu hasesu'n ormodol ac i sgaffaldio teithiau asesu cydlynol. Yn yr un modd, drwy ymwreiddio dolenni adborth ffurfiannol a systemau adborth eraill, gallwn sicrhau nad yw hyblygrwydd yn cyfaddawdu dyfnder academiaidd. Mae ymgysylltiad parhaus ag adborth, megis adborth ar sail deialog, ystyriaeth y myfyrwyr o sylwadau, ac adolygu cyfarwyddiadau ar y cyd, yn allweddol i sicrhau bod yr addysgeg yn parhau'n ymatebol.

Dangosyddion tystiolaeth:


- Data am berfformiad y myfyrwyr: cyrhaeddiad, cynnydd, gostyngiad mewn ailgyflwyno gwaith ac ailasesu.
- Data am gyfranogaeth y myfyrwyr: cyfraddau presenoldeb a chyfraddau cyflwyno, rhyngweithiad ag adborth ffurfiannol.
- Adborth gan fyfyrwyr: yr eitemau mewn arolygon sy'n ymwneud â thegwch, eglurder, a datblygiad sgiliau, e.e. yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF), yr Arolwg Profiad Myfyrwyr Ôl-raddedig a Addysgir (PTES) a'r arolygon gwerthuso modiwl.
- Data am ddeilliannau'r graddedigion: metrigau cyflogadwyedd, adborth gan gyflogwyr, archwiliadau o sgiliau proffesiynol.
- Tystiolaeth sy'n dangos dysgu ar sail gwaith go iawn: tasgau sydd wedi eu mapio yn erbyn cyd-destunau'r byd go iawn, gwaith rhyngddisgyblaethol, a 'llythrennedd asesiad' sy'n cymryd i ystyriaeth DA cynhyrchiol.

Cwestiwn allweddol ar gyfer mesur:

A yw'r dulliau asesu hyblyg yn helpu'r myfyrwyr i ddysgu'n ddyfnach, ymgysylltu â'r adborth mewn ffordd ystyrlon a datblygu sgiliau trosglwyddadwy a chynhwysol?



Y LENS TEGWCH



Trwy'r lens tegwch, gallwn archwilio a yw hyblygrwydd yn lleihau rhwystrau ac yn creu amgylcheddau lle gall pob dysgwr a phob aelod o staff ffynnu. Mae hyn yn golygu mynd i'r afael â normau asesu sy'n eithrio rhai pobl a phwysleisio bod hyblygrwydd yn hwyluso rhagoriaeth, yn hytrach na dim ond cymhwyso amodau.

Mae tegwch yn ymestyn y tu hwnt i'r myfyrwyr: mae'n rhaid sicrhau tegwch i'r staff hefyd a diogelu eu lles. Mae'n hanfodol sicrhau eglurder ynglŷn â llwyth gwaith, cyfleoedd ail hyfforddi, a diogelwch seicolegol, er mwyn sicrhau bod hyblygrwydd yn rhoi manteision i bawb perthnasol. Wrth gynllunio dulliau asesu cynhwysol, dylid rhoi ystyriaeth benodol i ddysgwyr niwroamrywiol, myfyrwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifedig, y rheiny sydd â chyfrifoldebau gofalu, a'r cyntaf yn eu teuluoedd i fynd i addysg uwch, gan sicrhau eu bod yn cael mynediad cyfartal at arferion ffurfiannol, cyngor, a chymorth gyda gwneud penderfyniadau.

Dangosyddion tystiolaeth:


- Data am fylchau yn y dyfarnu: ddadansoddi ffactorau sy'n cyfrif am wahaniaeth mewn cyrhaeddiad sef ethnigrwydd, rhywedd, anabledd, cefndir economaidd-gymdeithasol.
- Patrymau yn y defnydd a wneir o'r dulliau hyblyg: pa grwpiau o fyfyrwyr sy'n dewis yr opsiynau penodol a'u rhesymau am hynny.
- Lles y staff: data arolygon am eu llwyth gwaith, eu diogelwch seicolegol a'u parodrwydd ar gyfer newid.
- Lles y myfyrwyr: metrigau gorbryder a straen, data am geisiadau i ymestyn dyddiadau cwblhau neu gamau lliniaru eraill.
- Archwiliadau o hygyrchedd: cydymffurfiad ag egwyddorion cynllunio cynhwysol ac argaeledd amrywiaeth o ddulliau cynrychioli ac ymgysylltu.

Cwestiwn allweddol ar gyfer mesur:

A yw dulliau asesu hyblyg yn hybu cynhwysiant a lles y myfyrwyr a'r staff fel ei gilydd, gan leihau rhwystrau systemig i lwyddiant?



Y LENS DICHONOLDEB



Trwy'r lens dichonoldeb, gallwn ystyried a yw dulliau asesu hyblyg yn weithredol realistig ac yn raddiadwy o fewn y fframweithiau sefydliadol a phroffesiynol, ac a oes digon o gymorth digidol ar gael iddyn nhw. Yn aml iawn, dyma'r maes mwyaf cymhleth, lle mae gofyn cydweithio rhwng timau academiaidd, gwasanaethau proffesiynol ac arweinwyr er mwyn sicrhau dichonoldeb heb roi gormod o lwyth gwaith ar y staff. Mae cynllunio'n dda i sicrhau dichonoldeb yn golygu ymwreiddio hyblygrwydd yn y seilwaith digidol (systemau cofnodion myfyrwyr, systemau amserlennu, pyrth cyflwyno, dangosfyrddau dadansoddol), a sicrhau bod y systemau hyn yn cyfateb â gofynion achredu a gofynion eraill cyrff PSRB. Gallai fod yn ddefnyddiol cydweithio â sefydliadau eraill a rhannu fframweithiau cywerthedd i safoni dulliau, gan barchu anghenion lleol.

I sicrhau dichonoldeb, mae gofyn hefyd am newid diwylliannol, gan symud y tu hwnt i'r syniad mai 'dyma'r ffordd rydym wedi'i wneud erioed' a chydabod bod hyblygrwydd sydd wedi'i gynllunio'n dda'n gallu gostwng y llwyth gwaith am fod llai o gamymddwyn, cwynion ac apeliadau gan y myfyrwyr.

Dangosyddion tystiolaeth:


- Arolygon llwyth gwaith staff: amser addysgu, marcio a gweinyddu cyn ac ar ôl gweithredu'r dulliau.
- Data am wasanaethau proffesiynol: newidiadau mewn swyddfeydd cofrestru, systemau sicrhau ansawdd a systemau TG; effeithiau ar lifoedd gwaith.
- Metrigau cysondeb: adroddiadau graddnodi a safoni, ac adborth gan arholwyr allanol.
- Parodrwydd 'digidol': integreiddio nodweddion asesu hyblyg yn y systemau craidd (e.e. cyflwyno, cyfnewid adborth, casglu data).
- Cydymffurfiaid â gofynion cyrff PSRB: aliniad dulliau asesu hyblyg â safonau achredu.
- Y defnydd a wneir ar lefel sefydliadol: y gyfran o raglenni sy'n treialu neu'n ymwreiddio dulliau asesu hyblyg.

Cwestiwn allweddol ar gyfer mesur:

A yw dulliau asesu hyblyg yn cael eu cefnogi gan y fframweithiau digidol, gweinyddol a phroffesiynol sy'n angenrheidiol i'w hategu ar draws meysydd astudio a sefydliadau?



STRATEGOL



Er mwyn sicrhau bod y model 3 lens yn arwain at welliant parhaus, dylai sefydliadau ymwreiddio cam gwerthuso a myfyrio, sef cam olaf y model 5 cam, yn eu cylchoedd strategol. Yn ystod y cam gwerthuso, dylid defnyddio dangosyddion tystiolaeth o bob un o'r tri lens i fonitro cynnydd, amlygu effeithiau o ran tegwch, a chofnodi deilliannau diwylliannol a gweithredol.

Yn rhan o'r broses fonitro barhaus hon, dylid gwneud y canlynol:

- Defnyddio tystiolaeth feintiol ac ansoddol (e.e. dadansoddiadau perfformiad, grwpiau ffocws, adborth gan arholwyr).
- Rhoi adroddiadau blynyddol i bwyllgorau ar lefel y rhaglenni a'r sefydliad, gan gau'r ddolen o ran gweithgareddau gwella.
- Mapio deilliannau dysgu'r myfyrwyr yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol strategol o gynhwysiant, lles, parodrwydd ar gyfer DA cynhyrchiol, ac arloesi addysgol.
- Cefnogi cyfathrebu'n eglur am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd angen ei ail-raddnodi, er mwyn magu hyder mewn dulliau asesu hyblyg ymhlith y sector cyfan.



TEMPLEDI

Ar y tudalennau nesaf, mae pedwar templed asesu hyblyg sy'n darparu offer ymarferol i helpu'r staff a'r myfyrwyr i ymwreiddio'r Fframwaith Asesu Hyblyg mewn gwaith arferol o ddydd i ddydd. Gyda'i gilydd, maent yn cefnogi'r egwyddorion o ddewis, eglurder, cyd-gynllunio a chysondeb, y model gweithredu 5 cam, a'r tri lens 'addysgeg', 'tegwch' a 'dichonoldeb'. Mae pob un o'r templedi'n rhoi'r fframwaith ar waith, gan wneud yn siŵr bod hyblygrwydd yn ystyrlon ac yn deg a bod yr ansawdd yn cael ei sicrhau.

Templed 1 – Mae'r templed 'Cymorth Dewis i Fyfyrwyr' yn grymuso dysgwyr i wneud penderfyniadau deallus am fformat eu hasesiad, sy'n cyfateb â'r egwyddorion o ddewis ac eglurder a cham 'grymuso' y model 5 cam. Cânt eu hannog i fyfyrion ar eu cryfderau, eu hanghenion mynediad a'u hamcanion proffesiynol, gan ddatblygu 'llythrennedd asesiad' a hunanreolaeth y dysgwyr.

Templed 2 – Mae'r templed 'Contract Gwaith Grŵp' yn hyrwyddo'r egwyddorion o gyd-gynllunio a chysondeb, gan roi perchnogaeth i'r myfyrwyr ar asesiadau cydweithredol, a hefyd sicrhau tegwch ac atebolrwydd. Mae'n cefnogi'r camau teilwra a diogelu drwy roi disgrifiad eglur o'r rolau, y disgwyliadau a'r prosesau sy'n ymwneud â datrys gwrthdaro.

Templed 3 – Nod y 'Templed ar gyfer Mapio Cywerthedd â Gofynion Cyrff PSRB' yw gwneud yn siŵr bod y gwahanol opsiynau asesu'n gyfatebol, gan fynd i'r afael ag ystyriaethau'r cam 'diogelu' a'r lens 'dichonoldeb'. Mae'n rhoi cyfle i'r timau ddangos aliniad â safonau cyrff PSRB a'r safonau sicrhau ansawdd, gan atgyfnerthu uniondeb academiaidd a hwyluso cynllunio hyblyg.

Templed 4 – Mae'r templed 'Canllawiau am Ganiatâd a Phreifatrwydd ar gyfer Gwaith sy'n wynebu'r Cyhoedd' yn cyfuno materion moesegol a chyfreithiol ag ystyriaethau hygyrchedd, gan gefnogi'r agweddau 'tegwch' a 'diogelu'. Mae'n diogelu hawliau'r myfyrwyr gan annog arferion asesu sydd wedi eu seilio ar waith go iawn ac sy'n edrych tuag allan.

Gyda'i gilydd, mae'r templedi hyn yn gweithredu'r egwyddor hyblygrwydd, gan ei gwneud yn eglur, cynhwysol a chynaliadwy ar draws y rhaglenni.



TEMPLED 1

Cymorth Dewis i Fyfyrwyr

Materion sydd dan sylw	Cwestiynau hunanwerthuso i fyfyrwyr	Fy nodiadau / fy newis opsiwn
Deilliannau dysgu	Pa fformat asesu sy'n rhoi'r cyfle gorau i mi ddangos y sgiliau gofynnol?	
Meini prawf asesu a'u pwysoli	Beth yw'r meini prawf asesu a beth yw'r elfennau wedi'u pwysoli?	
Fy nghryfderau	Ydw i'n cyfathrebu syniadau'n well drwy ysgrifennu, dangosiad gweledol, neu ar lafar?	
Agweddau ymarferol	A oes yr offer ar gael i mi sydd eu hangen ar gyfer y fformat hwn (e.e. fideo, meddalwedd)?	
Cyfleoedd i dderbyn adborth	Pa adborth ffurfiannol sydd ar gael ar gyfer pob fformat?	
Llwyth gwaith ac amseriad	Sut mae pob opsiwn yn cyd-fynd â'm dyddiadau cwblhau eraill?	
Hygyrchedd a chysur	Pa opsiwn sy'n cefnogi fy newis ddulliau dysgu neu fy anghenion mynediad?	
Perthnasedd proffesiynol	Pa fformat sy'n cyfateb orau â'm nodau gyrfaol neu'r arfer diwydiannol?	
Crynodeb o'r dewisiadau	Fy newis fformat a'r rheswm am fy newis:	

TEMPLED 1

Cymorth Dewis i Fyfyrwyr

Nod y templed hwn:

Tywys y myfyrwyr wrth iddynt ddewis y fformat asesu sy'n cyfateb orau â'u dulliau dysgu, eu hanghenion mynediad a'u hamcanion proffesiynol, gan hefyd sicrhau aliniad â deilliannau dysgu'r modiwlau.

Pryd i'w ddefnyddio:

Ar ddechrau'r modiwl neu ar y cam briffio am yr asesiad. Yn ddelfrydol, wedi i'r opsiynau asesu gael eu hesbonio.

Pwy sy'n ei ddefnyddio:

Y myfyrwyr, gydag arweiniad gan gynghorwyr academiaidd neu arweinwyr modiwlau os gofynnir amdano.

Sut i'w ddefnyddio:

1. Rhannu'r templed wrth gyflwyno opsiynau asesu hyblyg.
2. Gofyn i'r myfyrwyr fyfyrto ar bob un o'r cwestiynau (deilliannau dysgu, cryfderau, agweddau ymarferol, adborth, llwyth gwaith, hygrychedd, perthnasedd proffesiynol).
3. Annog y myfyrwyr i nodi eu dewis opsiwn a'u rhesymwaith yn y 'Crynodeb o'r dewisiadau'.
4. Un opsiwn fyddai gofyn i'r myfyrwyr drafod eu dewis gyda thiwtor neu gymheiriaid cyn ei gyflwyno'n derfynol.
5. Cadw'r rhestrau dewis cyflawn hyn yn rhan o dystiolaeth asesu fyfyrionol neu ffurfiannol.



TEMPLED 2

Templed ar gyfer Contract Gwaith Grŵp

Adran	Cytundeb / manylion
Aelodau'r grŵp	Enwau a manylion cyswllt
Cwmpas y prosiect	Beth fydd y grŵp yn ei gyflawni?
Rolau unigol	Pwy sy'n gyfrifol am y dasg neu'r elfen unigol?
Cynllun cyfathrebu	Sut a phryd fyddwn ni'n cyfarfod? Pa blatfformau fyddwn ni'n eu defnyddio? (e.e. MS Teams, e-bost)?
Gwneud penderfyniadau	Sut fyddwn ni'n gwneud penderfyniadau fel grŵp neu'n datrys anghytundebau?
Dyddiadau cwblhau a cherrig milltir	Y dyddiadau allweddol ar gyfer drafftiau, ymarferion a chyflwyniad.
Adborth ac adolygu gan gymheiriaid	Sut fyddwn ni'n rhoi adborth adeiladol o fewn y grŵp?
Datrys gwrthdaro	Beth fyddwn ni'n ei wneud os bydd problemau'n codi (e.e. cysylltu ag arweinydd y modiwl wedi i ddau ddyddiad cwblhau gael eu methu)?
Cydnabyddiaeth	Mae pob un o'r aelodau'n cytuno â'r telerau a'r cyfraniad ar y cyd (llofnodion/caniatâd ar ffurf ddigidol).

TEMPLED 2

Templed ar gyfer Contract Gwaith Grŵp

Nod y templed hwn:

Sefydlu disgwyliadau cyffredin, hyrwyddo cydweithio a gostwng gwrthdaro mewn asesiadau grŵp hyblyg neu rai sydd wedi eu cynllunio ar y cyd.

Pryd i'w ddefnyddio:

Ar ddechrau prosiect grŵp, yn ddelfrydol yng nghyfarfod cyntaf y grŵp neu wedi i dimau gael eu ffurfio.

Pwy sy'n ei ddefnyddio:

Grwpiau o fyfyrwyr, gyda chefnogaeth arweinwyr modiwlau neu diwtoriaid.

Sut i'w ddefnyddio:

1. Mae pob grŵp yn cyflawni'r contract drwy weithio gyda'i gilydd.
2. Cytuno ar gwmpas y prosiect, rolau, dulliau cyfathrebu a phrosesau gwneud penderfyniadau.
3. Cofnodi cerrig milltir, cynlluniau adborth a champau gweithredu i ddatrys gwrthdaro.
4. Mae pob un o'r aelodau'n cadarnhau eu bod wedi rhoi caniatâd ar ffurf ddigidol neu mewn ysgrifen.
5. Mae pob tiwtor yn cadw copi o'r contract fel tystiolaeth o arferion marcio a safoni teg os bydd rhywun yn anghytuno.



TEMPLED 3

Templed ar gyfer Mapio Cywerthedd â Gofynion Cyrff PSRB

Deiliant dysgu/ cymhwysedd	Gofyniad/safon corff PSRB	Opsiwn asesu A (e.e. traethawd)	Opsiwn asesu B (e.e. cyflwyniad llafar)	Tystiolaeth o gywerthedd/ graddnodi	Enw/llofnod yr adolygydd
Dangos sgiliau rhesymu dadansoddol	Rhaid dangos y gallu i ddadansoddi'n feirniadol a chyluno	Dadansoddiad ysgrifenedig (2,000 o eiriau)	Amddiffyniad ar lafar gyda sleidiau (10 munud)	Yn y ddau achos, asesu yn erbyn yr un meini prawf 'meddwl beirniadol' yn ôl y cyfarwyddyd	
Cymhwyso egwyddorion moesegol proffesiynol	Rhaid cyfeirio at god ymarfer y corff PSRB	Testun myfyriol am astudiaeth achos	Trafodaeth mewn senario podlediad	Asesu yn erbyn yr un maen prawf marcio ar gyfer 'ymwybyddiaeth o foeseg', wedi'u pwysoli'n gyfartal	
Cyfathrebu'n effeithiol ag amrywiol gynulleidfaoedd	Rhaid dangos y gallu i gyfathrebu'n eglur	Adroddiad ysgrifenedig i'r gynulleidfa sy'n ymwneud â pholisi	Sesiwn briffio am bolisiau wedi'i recordio	Rhoi marciau cywerth ar gyfer strwythur, cywirdeb ac eglurder	

TEMPLLED 3

Templed ar gyfer Mapio Cywerthedd â Gofynion Cyrff PSRB

Nod y templed hwn:

Rhoi tystiolaeth i ddangos sut mae fformatau asesu gwahanol yn cyflawni'r un deilliannau dysgu ac yn bodloni'r un gofynion gan gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrff PSRh).

Pryd i'w ddefnyddio:


Yn ystod y gwaith o gynllunio neu ddilysu dulliau asesu, ond cyn gweithredu opsiynau asesu newydd neu hyblyg.

Pwy sy'n ei ddefnyddio:

Arweinwyr rhaglenni, timau sicrhau ansawdd ac arweinwyr modiwlau.

Sut i'w ddefnyddio:

1. Rhestru bob deiliant dysgu neu gymhwysedd yn y golofn gyntaf.
2. Cyfeirio at safonau cyrff PSRB neu feincnodau allanol cyfatebol.
3. Disgrifio'r fformatau asesu amgen (e.e. traethawd o'i gymharu â chyflwyniad llafar).
4. Dogfennu sut mae cywerthedd yn cael ei sicrhau (e.e. cyfarwyddiadau cyffredin, gweithgareddau graddnodi).
5. Gofyn i adolygwyr neu arholwyr allanol lofnodi'r templed i gadarnhau cywerthedd er mwyn ategu trywyddau archwilio.



TEMPLED 4

Canllawiau am Ganiatâd a Phreifatrwydd ar gyfer Gwaith sy'n wynebu'r Cyhoedd

Maes	Cyfarwyddyd/Gofyniad	Cwblhawyd (✓)	Nodiadau
Caniatâd ar sail gwybodaeth	Mae'r myfyrwyr yn deall sut ac ymhle y bydd eu gwaith yn cael ei rannu (e.e. blogiau, arddangosfeydd, fideos ar YouTube).		
Hawl i optio allan	Cynnig llwybr amgen i gyflwyno'n breifat heb anfantais.		
Data personol	Ni chynhwysir unrhyw ddynodyddion personol, manylion cyswllt na data cyfrinachol heb ganiatâd.		
Cynnwys sydd yn eiddo i drydydd parti	Defnyddir delweddu, cerddoriaeth neu ddata o dan drwydded neu trwy ddefnydd teg; enwir y ffynonellau.		
Perchnogaeth sefydliadol	Egluro'r hawlfraint a'r hawliau ailddefnyddio (y myfyriwr sy'n cadw'r awduraeth, heblaw ei fod yn nodi'n wahanol).		
Datganiad o'r defnydd a wnaed o DA cynhyrchiol	Y myfyrwyr yn datgelu unrhyw ddefnydd a wnaed o DA cynhyrchiol wrth greu neu olygu'r gwaith.		
Cydymffurfiaid â gofynion hygyrchedd	Yn rhan o'r cynnwys sy'n wynebu'r cyhoedd mae capsiynau, testun amgen a mathau hygyrch o ffeiliau.		
Cymeradwyaeth gan y goruchwyliwr	Yr aseswr yn cadarnhau bod y safonau moesegol wedi eu bodloni a bod y canllawiau preifatrwydd wedi eu dilyn.		

TEMPLED 4

Canllawiau am Ganiatâd a Phreifatrwydd ar gyfer Gwaith sy'n wynebu'r Cyhoedd

Nod y templed hwn:

Diogelu hawliau a phreifatrwydd y myfyrwyr os bydd eu hasesiadau'n cael eu cyhoeddi (e.e. blogiau, arddangosiadau, arddangosfeydd neu bortffolios digidol).

Pryd i'w ddefnyddio:


Cyn i'r myfyrwyr gychwyn unrhyw asesiad sydd i gael ei gyhoeddi neu ei rannu gyda'r cyhoedd.

Pwy sy'n ei ddefnyddio:


Arweinwyr y modiwlau, y myfyrwyr a'r bobl sy'n goruchwylio prosiectau sy'n wynebu'r cyhoedd.

Sut i'w ddefnyddio:

1. Adolygu'r rhestr wirio ar y cyd â'r myfyrwyr ar ddechrau'r broses asesu.
2. Cadarnhau bod caniatâd ar sail gwybodaeth wedi ei sicrhau a bod y myfyrwyr yn deall sut bydd eu gwaith yn cael ei ddefnyddio.
3. Gwneud yn siŵr bod y myfyrwyr yn gallu optio allan neu ddewis llwybr cyflwyno preifat heb gael anfantais.
4. Gwirio'r gofynion ynglŷn â hygyrchedd, hawlfraint, a datgelu unrhyw ddefnydd a wneir o DA cynhyrchiol.
5. Y tiwtoriaid yn llofnodi'r templed unwaith y bydd pob un o'r meini prawf wedi eu bodloni i gadarnhau cydymffurfiaid â'r polisïau sefydliadol yn ymwneud â moeseg a data.



SUT ALLWCH CHI DDEFNYDDIO'R FFRAMWAITH HWN?



Darlithydd / arweinydd y modiwl

Fel darlithydd, gallwch ddefnyddio'r 4 egwyddor (Dewis, Eglurder, Cyd-gynllunio, Cysondeb) i archwilio ac ailgynllunio eich arferion asesu chi. Bydd y fframwaith yn eich helpu i gyflwyno dewis i fyfyrwyr heb gyfaddawdu deilliannau dysgu neu degwch. Mae'n eich tywys i wneud meini prawf marcio'n fwy eglur, cynnig penderfyniadau asesu strwythuredig ac archwilio dulliau cyd-greu sy'n datblygu hunanreolaeth a chymhelliant y myfyrwyr.

Esiampyl: Ail-weithio traethawd lle mae llawer yn y fantol yn ddetholiad o fformatau (e.e. podlediad, briff polisi neu draethawd traddodiadol), a phob un wedi'i alinio â'r un deilliannau dysgu a'r un meini prawf.

Myfyriwr

Fel myfyriwr, bydd y fframwaith hwn yn eich grymuso i ddeall nod arferion asesu hyblyg a sut i wneud dewisiadau deallus sy'n cyfateb eich cryfderau a'ch amcanion chi. Mae'n annog deialog gyda'ch darlithwyr ac adborth ar yr hyn sy'n gweithio - gan helpu i siapia adborth amgylchedd dysgu mwy cynhwysol a mwy ymatebol.


Esiampyl: Defnyddio'r canllawiau a sgaffaldio mewn modiwl i ddewis cyflwyniad llafar yn lle adroddiad ysgrifenedig, a myfyrio ar y ffordd y mae hyn yn eich helpu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu ar gyfer eich gyrfa yn y dyfodol.

Staff gwasanaethau proffesiynol

P'un a yw eich rôl yn ymwneud â chymorth dysgu, amserlennu, technoleg, neu sicrhau ansawdd, mae pedwar cam cyntaf y model 5 cam sy'n rhan o'r fframwaith hwn yn darparu sgaffald i weithredu hyblygrwydd o ran dulliau asesu. Gallwch ddefnyddio'r fframwaith i symleiddio llifoedd gwaith gweinyddu, galluogi offer digidol ar gyfer cyflwyno gwaith a rhoi adborth, a chydweithio ag academyddion i ddiogelu uniondeb academiaidd a gostwng cynnydd cyflym mewn llwyth gwaith.

Esiampyl: Helpu i gynllunio plattfform digidol sy'n galluogi i'r myfyrwyr ddewis fformat a dyddiad eu cyflwyniad o fewn cyfnod asesu penodedig, gyda phrosesau gwirio a sicrhau ansawdd.

SUT ALLWCH CHI DDEFNYDDIO'R FFRAMWAITH HWN?



Arweinydd uwch (e.e. Deon, Pennaeth yr Ysgol, Dirprwy Is-Ganghellor Addysg)

Fel arweinydd uwch, bydd y model strategol 3 lens (Addysgeg, Tegwch, Dichonoldeb) yn cefnogi newid mewn polisiau a strategaethau. Gallwch ddefnyddio'r fframwaith i alinio'r dulliau asesu hyblyg ag amcanion y sefydliad - e.e. mewn perthynas ag ehangu cyfranogaeth, dulliau addysgu sy'n barod ar gyfer DA, neu ddata am ddeilliannau'r graddedigion - ac i fuddsoddi yn y seilwaith digidol a'r seilwaith datblygiad proffesiynol sy'n angenrheidiol i ymwreiddio newid mewn ffordd gynaliadwy.

Esiampl: Ymwreiddio'r fframwaith mewn cynllun ar gyfer adnewyddu'r strategaeth addysg neu gynllun gweithredu a lunnir mewn ymateb i ganlyniadau'r ACF, gan archwilio pob rhaglen i sicrhau bod cyfleoedd dewis a dulliau asesu cynhwysol ar gael.




Llywydd Undeb y Myfyrwyr

Fel Llywydd, bydd y fframwaith hwn yn rhoi platfform hyrwyddo i chi. Gallwch hyrwyddo llais y myfyrwyr yn y gwaith o gynllunio dulliau asesu, dadlau dros arferion asesu eglur a chynhwysol, a gweithio gyda'r staff i sicrhau bod hyblygrwydd nid yn unig yn cael ei gynnig ond hefyd yn cael ei gefnogi gydag arweiniad a thegwch.

Esiampl: Cynnig prosiect mewn partneriaeth rhwng myfyrwyr a staff i dreialu cyfleoedd mewn rhaglenni allweddol i ddewis dulliau asesu, gan ddefnyddio'r fframwaith hwn fel glasbrint.

ALINIAD AG ARGRAFFIAD 2023

FFRAMWAITH SAFONAU PROFFESIYNOL Y DU



Mae Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU wedi ei strwythuro o amgylch y tri phrif ddimensiwn a ganlyn:

- Meysydd Gweithgarwch (MG)
- Gwybodaeth Graidd (GG)
- Gwerthoedd Proffesiynol (GP)

Isod, mae tair rhan ein Fframwaith Asesu Hyblyg wedi eu mapio yn erbyn dimensiynau Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU:

Dull 1: Cynllun ymarferol - y 4 egwyddor

(Dewis, Eglurder, Cyd-gynllunio, Cysondeb)

Wedi'u mapio yn erbyn Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU:

MG1: Dylunio a chynllunio gweithgarwch a/neu raglenni dysgu

MG3: Asesu a rhoi adborth ar ddysgu

GG4: Defnydd priodol o dechnoleg ddigidol a/neu dechnolegau eraill, ac adnoddau i ddysgu

GG5: Gofynion ar gyfer sicrhau ansawdd a gwella, a'u goblygiadau i ymarfer

GP1: Parchu dysgwyr unigol a grwpiau amrywiol o ddysgwyr

GP2: Hybu ymgysylltu mewn dysgu a chyfleoedd cyfartal i bawb i gyrraedd eu potensial

Dull 2: Dull gweithredol - y model 5 cam

(Cynorthwyo, Teilwra, Grymuso, Diogelu, Gwerthuso)

Wedi'u mapio yn erbyn Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU:

MG2: Addysgu a/neu gefnogi dysgu drwy ddulliau ac amgylcheddau priodol

MG4: Cefnogi ac arwain dysgwyr

GG3: Gwerthuso beirniadol fel sail i ymarfer effeithiol

GP3: Defnyddio ysgolheictod, neu ymchwil, neu ddysgu proffesiynol, neu ddulliau eraill sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth fel sail i ymarfer effeithiol

GP5: Cydweithio ag eraill i wella ymarfer

Dull 3: Aliniad strategol - y model 3 lens

(Addysgeg, Tegwch, Dichonoldeb)

Wedi'u mapio yn erbyn Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU:

MG5: Gwella ymarfer drwy eich datblygiad proffesiynol parhaus eich hun

GG1: Sut mae dysgwyr yn dysgu, yn gyffredinol ac mewn pynciau penodol


GG2: Dulliau o addysgu a/neu gefnogi dysgu, sy'n briodol i bynciau a lefelau astudio

GP4: Ymateb i'r cyd-destun ehangach y mae addysg uwch yn gweithredu ynddo, gan gydnabod y goblygiadau i ymarfer

ALINIAD AG ARGRAFFIAD 2023

FFRAMWAITH SAFONAU

PROFFESIYNOL Y DU



 **AdvanceHE**

Crynodeb o'r aliniad

Y rhan o'r Fframwaith	Prif feysydd ffocws Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU
Cynllun ymarferol	MG1, MG3, GG4, GG5, GP1, GP2
Gweithredol	MG2, MG4, GG3, GP3, GP5
Aliniad strategol	MG5, GG1, GG2, GP4

FFRAMWAITH ASESU HYBLYG



LLYFRYDDIAETH

- Barua, L. a Lockee, B., (2025). Flexible assessment in higher education: A comprehensive review of strategies and implications. TechTrends, 69(2), tud. 301 i 309.
- Canal, M. M., a Child, R. (2025). Impact of the type of assessment on awarding gaps in bioscience undergraduate degrees. Assessment & Evaluation in Higher Education, 50(6), tud. 982 i 995.
<https://doi.org/10.1080/02602938.2025.2500365>
- Cook, A., (2001). Assessing the use of flexible assessment. Assessment & Evaluation in Higher Education, 26(6), tud. 539 i 549.
- Elkington, S., Chesterton, P., a Wood, A., (2024). Innovation or inhibition? Factors affecting student engagement with flexible assessment arrangements. Student Engagement in Higher Education Journal, 7(2). RAISE.
- Finn, G. M., Tai, J., a Nadarajah, V., (2024). Inclusive assessment in health professions education: Balancing global goals and local contexts. Medical Education. Wiley. <https://doi.org/10.1111/medu.15535>
- Firth, M., Ball-Smith, J., Burgess, T., Chaffer, C., Finn, G., Guy, M., Hansen, J., Havemann, L., Glover, N., Kingsbury, M., Pazio, M., Penn, J., Trzeciak, F., Shackelford-Cesare, K., Walker, S., Webb, J., (2023) Optionality in Assessment: A cross institutional exploration of the feasibility, practicality & utility of student choices in assessment in UK higher education, 26 tudalen, a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch ym mis Hydref 2023
- Firth, M., (2023) What is optionality in assessment?. Post ar flog QAA, sydd ar gael ar www.qaa.ac.uk/news-events/blog/what-is-optionality-in-assessment
- Firth, M., (2024) How can you offer student choice in assessment?. Blogiad i Advance HE, a gyhoeddwyd ar 20 Awst 2024, sydd ar gael ar www.advance-he.ac.uk/news-and-views/how-can-you-offer-student-choice-assessment
- Firth, M., (2024) Giving students options when it comes to assessment, Blogiad i Times Higher Education resources, a gyhoeddwyd ar 1 Gorffennaf 2024, sydd ar gael ar www.timeshighereducation.com/campus/giving-students-options-when-it-comes-assessment
- Hughes, C., Walker, S., Moore, B., Albary, S., Doyle, D., Squire, L., a Wallington, A., (2025). Advancing assessment in co-design with students. Journal of Learning Development in Higher Education, (41).
<https://doi.org/10.47408/jldhe.vi37.1774>
- Leopold, K., a Marinciu, R., (2025) Authentic Assessment to Enhance Employability, a gyhoeddwyd yn 'Employability Case Study Compendium 2025' Advance HE, tud. 87 i 92
- Moulton, J. F. G. (2025). Student choice in assessment: Is there a subject-specific case for using assessment optionality in political science education? PS: Political Science & Politics. Cambridge University Press.
<https://doi.org/10.1017/S104909652400132X>
- Morgan, C. a Bird, J., 2007. Flexible assessment: some tensions and solutions. In Flexible learning in an information society (tud. 247 i 259). IGI Global Scientific Publishing.
- Rose, J., McDonagh, L., Dewsnip, H., Walker, L., a McBride, J., (2025) Active Self-Feedback - a guide for staff, sydd ar gael ar <https://assets.manchester.ac.uk/staffnet/files/itl/active-self-feedback-for-staff/>
- Walker, S. (2025). Trends in assessment in higher education: considerations for policy and practice. Jisc.

FFRAMWAITH ASESU HYBLYG

Model cereddaethol ar gyfer llywodraethol a chynhyrwyd yn barod ar gyfer y dyfodol

Dr Miri Firth



AdvanceHE & QAA

Y CYFRANWYR

Datblygwyd y fframwaith hwn ar y cyd â grŵp amrywiol ac aml-sefydliadol o 53 o gyfranwyr sy'n cynrychioli 17 o brifysgolion a chyrff cenedlaethol y sector. Mae rolau'r cyfranwyr yn rhychwantu rolau academiaidd, proffesiynol ac arweiniol, gan sicrhau safbwyntiau o waith cynllunio cwricwla, addysg ddigidol, gwaith sicrhau ansawdd, ac arferion asesu mewn pynciau penodol. Mae'r cydbwysedd hwn yn dangos bod y sector cyfan yn cydweithio i siapia dulliau asesu hyblyg ar gyfer cyd-destunau meysydd astudio a sefydliadau gwahanol.

Prifysgol Manceinion - Alexandra Nutter, Alexandar Gunz, Charles Walkden, Charlotte Warden, Chris Godden, Christina Picken, Christine Lampe, Daniel Engstrom, Donald Ward, Elizabeth Lewis, Garry Squires, Gillian Ulph, Grace Lipowska-Bhalla, Helen Jopling, Jen McBride, Jenni Rose, Karen Beswick, Louisa Dawes, Maria merce Canal, Neil Morrison, Nick Weise, Niels Walet, Patricia Munoz-Escalona, Rachel Ashworth, Rachel Parker-Strak, Sally Hickson, Sarah Hatherill, Sean Bechhofer, Simon Thomson, Steve Pettifer.

Prifysgol Fetropolitan Manceinion - Alicia Owen, Christopher Little, Rod Cullen

Coleg Prifysgol Llundain - Danielle Tran, Jenny Griffiths, Manjula Patrick

Prifysgol Efrog - Caroline Chaffer

Prifysgol Nottingham Trent - Bunmi Omorotionmwan

Prifysgol Lerpwl - Paul Grattrick, Floriana Grasso, Sam Saunders

Prifysgol Greenwich - John Tull

Prifysgol Swydd Hertford - Amirhossein Balali

Prifysgol Southampton - Rebecca Would, Louise Squire

Prifysgol Sunderland - Vanessa Parson

Prifysgol Surrey - Dominic Mahon

Prifysgol y Frenhines, Belfast - Jill Mulholland

Advance HE - Vic Stephenson

Undeb y Myfyrwyr Prifysgol Manceinion - Emma Bramwell

Ymgynghorydd annibynnol - Sheree Palmer

Prifysgol Mohammed Bin Rashid y Gwyddorau Meddygol ac Iechyd yn yr Emiradau Arabaidd Unedig - Preman Rajalingam

Diolch o waelod calon i bawb sydd wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r fframwaith hwn drwy ei ddarllen, ei adolygu a'i herio mewn ffordd mor ofalus a thrwyadl. Mae eich adborth, eich golygiadau a'ch mewnwelediadau chi i gyd wedi cryfhau'r gwaith o ran ei eglurder, ei fanylder a'i berthnasedd i'r byd go iawn ar draws y meysydd astudio i gyd. Efallai ein bod wedi llwyddo i osgoi 'Adolygwr 2', ond doedd hi ddim mymryn haws gweithio drwy'r ymatebion beirniadol ac ystyriol a gafwyd gan fwy na 40 o'n cymheiriaid, ac eto roedd honno'n dasg lawer mwy buddiol.

